# **Crynodeb o Fil**
Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)

Ionawr 2013

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
**www.cynulliadcymru.org/research**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 12/3151

# Crynodeb o Fil
## Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)

Ionawr 2013

Victoria Paris ac Owain Roberts

Rhif dogfen: 13 / 002

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cynnwys

**1. Cyflwyniad** .......... **1**

**2. Llinell Amser** .......... **2**

2.1. Datblygiadau yn y trydydd Cynulliad (2007 – 2011) .......... 2
2.2. Datblygiadau yn y pedwerydd Cynulliad hyd yma .......... 4
2.3. Darpariaethau deddfwriaethol presennol .......... 5

**3. Y Bil** .......... **7**

3.1. Nodau ac amcanion polisi .......... 7
3.2. Darpariaethau .......... 8
3.3. Y gwahaniaethau rhwng y Bil drafft a'r Bil fel y'i cyflwynwyd .......... 10

**4. Goblygiadau ariannol** .......... **11**

**5. Ymatebion** .......... **13**

# Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)

## 1. Cyflwyniad

**Dyddiad cyflwyno:** 3 Rhagfyr 2012

**Yr Aelod sy'n gyfrifol:** Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Pwyllgor y Cynulliad sy'n craffu ar Gyfnod 1 y Bil:** Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad:** 22 Mawrth 2013

Nod *Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)*[1] ("y Bil") a'r deunydd cyfathrebu sy'n gysylltiedig ag ef yw cynyddu nifer yr organau sy'n cael eu rhoi yng Nghymru er mwyn achub a gwella bywydau. Yn benodol, bwriad Llywodraeth Cymru drwy'r Bil yw mynd i'r afael â chyfradd gydsynio gymharol isel y Deyrnas Unedig drwy gael eglurder ynghylch dymuniadau rhagor o bobl mewn perthynas â chydsynio i roi organau a thrwy newid agweddau ac ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch y mater yng Nghymru.

Mae cyflwyno'r Bil yn benllanw nifer o ymholiadau ac ymgynghoriadau a gynhaliwyd yng Nghymru gan Gynulliadau a Llywodraethau olynol Cymru er 2008.

Mae'r papur hwn yn cynnwys peth gwybodaeth gefndir hanesyddol am y fframwaith cyfreithiol presennol sy'n rheoleiddio rhoi organau yng Nghymru ac ymgynghoriadau a gynhaliwyd ynghylch cynigion Llywodraeth Cymru hyd yma. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o brif amcanion a darpariaethau'r Bil, ac yn crynhoi rhai o'r ymatebion cychwynnol.

---

[1] *Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)* [fel ar 3 Ionawr 2013]

## 2. Llinell Amser[2]

### *2.1. Datblygiadau yn y trydydd Cynulliad (2007 – 2011)*

Cafodd cydsyniad tybiedig i roi organau ei drafod yn helaeth yn ystod y trydydd Cynulliad. Cynhaliodd Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y trydydd Cynulliad ymholiad i gydsyniad tybiedig i roi organau rhwng **mis Chwefror a mis Gorffennaf 2008** a chyhoeddodd adroddiad[3] ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion ar **30 Gorffennaf 2008**.

Yng nghrynodeb yr adroddiad, nododd y Pwyllgor mai'r camau mwyaf brys a chynhyrchiol er mwyn gwella cyfraddau rhoi organau fyddai mynd ati'n gynnar i weithredu argymhellion Tasglu Rhoi Organau'r Deyrnas Unedig.[4] Ni ddiystyrodd y Pwyllgor y posibilrwydd o gyflwyno cydsyniad tybiedig yng Nghymru rhywbryd yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid oedd o'r farn mai dyna'r flaenoriaeth bwysicaf ar y pryd a chredai y gallai hynny dynnu sylw oddi wrth gamau gweithredu eraill a oedd yn fwy cynhyrchiol.

Mewn ymateb ysgrifenedig i argymhelliad y Pwyllgor, nododd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, Edwina Hart AC:

> Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried nad yw adroddiad y Pwyllgor yn adlewyrchu'n ddigonol y dystiolaeth a dderbyniodd o ran cryfder y farn a fynegwyd mewn perthynas â chaniatâd tybiedig ac yn ogystal nid yw'r adroddiad yn cydnabod rhai o'r camau a gyhoeddwyd eisoes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â rhoi a thrawsblannu organau.[5]

Rhwng **mis Hydref 2008 a mis Ionawr 2009**, cychwynnodd y Gweinidog ar y pryd drafodaeth gyhoeddus er mwyn casglu barn pobl ynglŷn â sicrhau mai Cymru fyddai'r wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gyflwyno system optio allan. Wedyn, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater, o'r enw *Opsiynau ar gyfer Newid y System Rhoi Organau yng Nghymru*[6] ym mis **Mai 2009,** a chyhoeddodd adroddiad ymgynghori[7] yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd ym mis **Medi 2009**. Nododd yr adroddiad fod mwyafrif yr ymatebion yn

---

[2] Mae rhagor o wybodaeth am roi organau a meinweoedd yng Nghymru ym Mhapur Ymchwil ***Rhoi Organau a Meinweoedd***, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Tachwedd 2011 [fel ar 3 Ionawr 2013]

[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, ***Ymchwiliad i ganiatâd tybiedig i roi organau***, Gorffennaf 2008 [fel ar 19 Rhagfyr 2012]

[4] Ym mis Rhagfyr 2006, sefydlodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y Tasglu Rhoi Organau er mwyn nodi rhwystrau sy'n atal pobl rhag rhoi organau ac argymell camau gweithredu yr oedd eu hangen er mwyn cynyddu cyfradd rhoi a chaffael organau o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol.

[5] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, Ymchwiliad i ganiatâd tybiedig i roi organau, ***Ymateb y Gweinidog***, Medi 2008 [fel ar 19 Rhagfyr 2012]

[6] Llywodraeth Cymru, ***Papur Ymgynghori – Opsiynau ar gyfer newid y system rhoi organau yng Nghymru***, Mai 2009 [fel ar 19 Rhagfyr 2012]

[7] Llywodraeth Cymru, ***Adroddiad Ymgynghori – Opsiynau ar gyfer newid y system rhoi organau yng Nghymru***, Medi 2009 [fel ar 19 Rhagfyr 2012]

cefnogi newid y system cydsynio i roi organau yng Nghymru i system feddal o optio allan.[8]

Ar **18 Rhagfyr 2009**, gwnaeth y Gweinidog ar y pryd Ddatganiad Cabinet Ysgrifenedig ar Roi Organau yng Nghymru yn datgan ei bod yn bwriadu ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno system feddal o ddewis peidio â rhoi organau yng Nghymru a bod cais am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol wedi ei gyflwyno fel rhan o'r chwiliad blynyddol am eitemau deddfwriaethol.[9] Mewn datganiad diweddarach ar Raglen Ddeddfwriaethol 2010-2011 Llywodraeth Cymru ar **13 Gorffennaf 2010**, cadarnhaodd y Prif Weinidog ei fwriad i ofyn am y pwerau deddfu angenrheidiol yn ymwneud â rhoi organau drwy Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol.[10]

Cyflwynwyd y gorchymyn arfaethedig, sef *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd) 2011*[11] (y Gorchymyn arfaethedig), a oedd â'r bwriad o drosglwyddo pwerau deddfu yn ymwneud â rhoi organau o San Steffan i'r Cynulliad Cenedlaethol, gan Lywodraeth Cymru ar **10 Ionawr 2011.**

Yn dilyn y bleidlais o blaid rhoi rhagor o bwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y refferendwm ar **3 Mawrth 2011**, tynnwyd y Gorchymyn arfaethedig yn ôl gan Lywodraeth Cymru. Yn y Cyfarfod Llawn ar **9 Mawrth 2011** mewn datganiad ar y Gorchymyn arfaethedig, nododd y Gweinidog:

> Yn sgîl canlyniad llwyddiannus y refferendwm ar 3 Mawrth [...] ysgrifennais at Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig i roi gwybod iddynt am fy mwriad i dynnu Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd) 2011 yn ôl. [...] Mae canlyniad y refferendwm wedi paratoi'r ffordd i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol gyflwyno Bil, gyda chraffu deddfwriaethol priodol yma yn y Cynulliad. Yn yr achos hwnnw, Lywydd, mater i chi yw penderfynu a yw Bil a gynigiwyd gan y Llywodraeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Barn glir Llywodraeth y Cynulliad yw, o ystyried geiriad Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y byddai gan y Cynulliad y pŵer i basio Deddf ynghylch rhoi organau.[12]

---

[8] Ibid
[9] Llywodraeth Cymru, Edwina Hart (Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), ***Y system rhoi organau yng Nghymru***, Datganiad Cabinet Ysgrifenedig, 18 Rhagfyr 2009 [fel ar 19 Rhagfyr 2012]
[10] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyfarfod Llawn, ***Cofnod y Trafodion [tudalen 51]***, 13 Gorffennaf 2010 [fel ar 3 Ionawr 2013]
[11] ***Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd) 2011*** [fel ar 19 Rhagfyr 2012]
[12] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyfarfod Llawn, ***Cofnod y Trafodion [tudalen 43]***, 9 Mawrth 2011 [fel ar 20 Tachwedd 2012]

## 2.2. *Datblygiadau yn y pedwerydd Cynulliad hyd yma*

Roedd ymrwymiad i gyflwyno Bil yn y Cynulliad yn ymwneud â rhoi organau ym maniffesto Llafur Cymru ar gyfer etholiadau Cynulliad ym mis **Mai 2011**. Nododd eu maniffesto:

> Byddwn yn cyflwyno Mesur Cynulliad er mwyn symud i system 'dewis peidio rhoi', wedi ei chefnogi gan raglen gyfathrebu gynhwysfawr. Y brif fantais fyddai cynyddu nifer y rhoddwyr organau yng Nghymru a'r canlyniad fyddai bod nifer o fywydau'n cael eu hachub a bod ansawdd bywydau llawer mwy yn gwella.[13]

Cynhwyswyd cynigion tebyg ym maniffestos etholiad 2011 Democratiaid Rhyddfrydol Cymru[14] a Phlaid Cymru[15] hefyd.

Yn fuan ar ôl yr etholiad cyhoeddodd y Prif Weinidog, ar **12 Gorffennaf 2011**, y byddai Bil ar roi organau yn cael ei gynnwys yn rhaglen ddeddfwriaethol bum mlynedd Llywodraeth Cymru.[16] Cyhoeddodd yn ddiweddarach ar **17 Gorffennaf 2012** y byddai Bil o'r fath yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol yn y Cynulliad yn ystod sesiwn 2012-2013.[17]

Ar **8 Tachwedd 2011** cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn[18] ar gynigion ar gyfer deddfwriaeth ar roi organau a meinweoedd. Cynigiodd y Papur Gwyn y byddai 'system feddal o optio allan' yn cael ei chyflwyno a fyddai'n caniatáu tynnu a defnyddio organau a meinweoedd oni bai bod y sawl a fu farw wedi gwrthwynebu hynny yn ystod ei oes. O dan y cynigion, byddai teulu'r sawl a fu farw yn parhau i fod yn rhan o'r broses benderfynu ynglŷn â rhoi organau. Byddai'r 'system feddal o optio allan' yn berthnasol i bobl 18 oed a throsodd a fu'n byw ac a fu farw yng Nghymru. Cynigiai'r Papur Gwyn hefyd y byddai Cofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG yn parhau i fod ar gael i bobl yng Nghymru ar y cyd â'r 'system feddal o optio allan', a chynigiwyd nifer o opsiynau o ran cadw cofnodion. Roedd yr ymgynghoriad yn agored tan 31 Ionawr 2012. Ym mis Mawrth a mis Ebrill 2012 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r 1,234 o ymatebion a gafwyd a chrynodeb ohonynt a oedd yn dadansoddi'r themâu a godwyd.[19]

Ar **18 Mehefin 2012** cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Fil Trawsblannu Dynol (Cymru) drafft* a'r *Memorandwm Esboniadol drafft a'r Ddogfen Ymgynghori*.[20]

---

[13] Llafur Cymru, ***Maniffesto Llafur Cymru 2011: Sefyll Cornel Cymru***, tudalen 53 [fel ar 19 Rhagfyr 2012]
[14] Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, ***Maniffesto Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: GALL Cymru Wneud yn Well***, tudalen 39 [fel ar 19 Rhagfyr 2012]
[15] Plaid Cymru, ***Maen i'r Wal: Maniffesto dros Gymru Well***, tudalen 30 [fel ar 19 Rhagfyr 2012]
[16] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyfarfod Llawn, ***Cofnod y Trafodion [tudalen 59]***, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 3 Ionawr 2013]
[17] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyfarfod Llawn, ***Cofnod y Trafodion [tudalen 56]***, 17 Gorffennaf 2012 [fel ar 3 Ionawr 2013]
[18] Llywodraeth Cymru, ***Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth ar roi organau a meinweoedd: Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru***, Tachwedd 2011 [fel ar 19 Rhagfyr 2012]
[19] Llywodraeth Cymru, Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth ar roi organau a meinweoedd: Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru, ***Crynodeb o Ymatebion*** [fel ar 19 Rhagfyr 2012]
[20] Llywodraeth Cymru, ***Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) drafft a'r Memorandwm Esboniadol drafft a'r Ddogfen Ymgynghori***, Mehefin 2012 [fel ar 19 Rhagfyr 2012]

Bwriad yr ymgynghoriad hwn oedd cael barn pobl ar y Bil drafft a'r Memorandwm Esboniadol, a pharhaodd hyd **10 Medi 2012**. Ym **mis Hydref 2012** cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o'r ymatebion (a ddiweddarwyd wedyn ar **3 Rhagfyr 2012**).[21] Cafwyd 2,977 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ond llythyrau union debyg neu ymatebion yn seiliedig ar nodyn briffio safonol a gylchredwyd gan y Gymdeithas Diogelu Plant heb eu Geni oedd mwyafrif llethol (2,688) yr ymatebion.

Ym mis **Hydref 2012** cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr adroddiad *Agweddau'r Cyhoedd ar Roi Organau: Arolwg Llinell Sylfaen 2012*[22] hefyd. Fel rhan o Arolwg Omnibws Cymru comisiynodd Llywodraeth Cymru waith casglu data o gwestiynau yn yr arolwg rhwng **Mehefin 2012 a Mehefin 2016**. Yn ystod arolwg **Mehefin 2012**, gofynnwyd cwestiynau am roi organau i'r 1,006 o ymatebwyr 16 oed a throsodd. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynnal ymgyrch gyfathrebu er mwyn sicrhau bod poblogaeth Cymru yn ymwybodol o'r gyfraith newydd ac yn gwybod sut i gofrestru eu gwrthwynebiad os dymunant wneud hynny. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i asesu effeithiolrwydd parhaus yr ymgyrch gyfathrebu.

## *2.3. Darpariaethau deddfwriaethol presennol*

Amlinellir y fframwaith cyfreithiol presennol yn ymwneud â rhoi organau a meinweoedd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn *Neddf Meinweoedd Dynol 2004.*[23]

Mae'r Ddeddf yn nodi gofyniad i gael 'cydsyniad priodol' gan bobl benodedig cyn y gellir cynnal gweithgareddau penodol. Mae gweithgareddau o'r fath yn cynnwys storio a defnyddio cyrff cyfan a storio a defnyddio deunydd dynol (organau, meinweoedd a chelloedd) o gyrff pobl a fu farw. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn anghyfreithlon defnyddio cyrff neu ddeunydd dynol, ar ôl iddynt gael eu rhoi, at ddibenion heblaw'r dibenion a nodir yn y Ddeddf. Nid yw'r Ddeddf yn berthnasol i dynnu (yn hytrach na storio a defnyddio) deunydd dynol o gyrff pobl fyw.

O ran trawsblannu organau, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gael 'cydsyniad priodol' cyn tynnu o gorff rhywun a fu farw unrhyw ddeunydd perthnasol sydd wedi dod o gorff dynol at ddibenion trawsblannu organau.

Ar hyn o bryd, gall y rhai sy'n dymuno cydsynio i roi organau ar ôl eu marwolaeth wneud hynny drwy gofrestru'n gyfrinachol ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG.

---

[21] Llywodraeth Cymru, Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) drafft a'r Memorandwm Esboniadol drafft a'r Ddogfen Ymgynghori, ***Crynodeb o'r Ymatebion***, 3 Rhagfyr 2012 [fel ar 19 Rhagfyr 2012]
[22] Llywodraeth Cymru, ***Agweddau'r Cyhoedd ar Roi Organau: Arolwg Llinell Sylfaen 2012***, Hydref 2012 [fel ar 19 Rhagfyr 2012]
[23] ***Deddf Meinweoedd Dynol 2004***, (Pennod 30) (Saesneg yn unig) [fel ar 19 Rhagfyr 2012]

Caiff y Gofrestr ei chadw a'i chynnal gan wasanaeth Gwaed a Thrawsblannu'r GIG, sef Awdurdod Iechyd Arbennig sy'n gweithredu ar lefel Cymru a Lloegr.

Er bod pobl ar y Gofrestr wedi cydsynio i roi eu horganau, gofynnir i berthnasau'r unigolyn gadarnhau hynny os bydd yr unigolyn dan sylw yn marw er mwyn sicrhau bod y camau yn cael eu cymryd ar sail dymuniadau diweddaraf y sawl a fu farw. Os na fydd y sawl a fu farw wedi mynegi barn o blaid neu yn erbyn rhoi eu horganau, gall perthnasau'r sawl a fu farw gydsynio i roi'r organau beth bynnag.

## 3. Y Bil

### *3.1. Nodau ac amcanion polisi*

Prif amcanion cyffredinol y Bil yw cynyddu nifer y rhoddwyr organau yng Nghymru. Ei fwriad yw cyflawni hyn fel a ganlyn:

- cyflwyno 'system feddal o optio allan' (h.y. system lle y caiff organau a meinweoedd eu tynnu oni fydd y sawl a fu farw wedi gwrthwynebu hynny yn ystod ei oes, ond lle y byddai teulu'r sawl a fu farw yn parhau i fod yn rhan o'r broses o benderfynu ynglŷn â rhoi);
- gwneud darpariaethau ynglŷn â'r hyn y mae cydsyniad yn ei olygu;
- gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo trawsblannu er mwyn gwella iechyd pobl Cymru; a
- gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer cydsyniad a ystyrir.

Bydd y Bil yn rhoi cyfle i bobl ddatgan eu penderfyniad (y cyfeirir ato yn y Bil fel 'cydsyniad datganedig' - h.y. penderfyniad naill ai i 'optio i mewn' neu 'optio allan' o roi organau) drwy roi eu henw ar gofrestr. Mae'r Bil yn nodi y bydd pobl, drwy beidio â gweithredu er eu bod wedi cael cyfle i wneud hynny, yn cael eu trin fel pe baent wedi rhoi eu cydsyniad (y cyfeirir ato yn y Bil fel 'cydsyniad a ystyrir'). Mae elfen 'feddal' y system yn cyfeirio at gynnwys rhywun sydd mewn 'perthynas gymhwysol' (a amlinellir yn Adran 17(2) y Bil) â'r ymadawedig, yr ymgynghorir â nhw yn y broses benderfynu.

Dim ond i'r bobl ganlynol y mae'r Bil hwn yn berthnasol:

- pobl 18 oed a throsodd, sydd â'r gallu meddyliol i ddeall y gellid ystyried bod cydsyniad wedi ei roi;
- pobl sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yng Nghymru am gyfnod o chwe mis neu fwy ac sy'n marw yng Nghymru.

Nid yw'r Bil yn effeithio ar y gyfraith sy'n ymwneud â darpariaethau *Deddf Meinweoedd Dynol 2004* nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â chydsynio, gan y bydd y darpariaethau hynny yn parhau i fod yn berthnasol i Gymru.

Ni fydd y Bil ychwaith yn newid trefniadau presennol gwasanaeth Gwaed a Thrawsblannu'r GIG. Bydd Cymru felly yn parhau i rannu rhestr aros trawsblannu â gweddill y Deyrnas Unedig a chaiff organau eu dyrannu ar sail angen clinigol a chydweddiad addas.

## *3.2. Darpariaethau*

Mae'r Bil yn gymharol fyr, gyda dim ond 20 o Adrannau a dim Atodlenni. Rhoddir crynodeb o bob Adran isod:

Mae **Adran 1** yn rhoi trosolwg o'r Bil.

Mae **Adran 2** yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo trawsblannu, gan gynnwys hysbysu ac addysgu'r cyhoedd am yr amgylchiadau lle y gellir ystyried bod cydsyniad i drawsblannu wedi'i roi.

Mae **Adran 3** yn nodi'n eglur ei bod yn ofynnol cael cydsyniad er mwyn cynnal gweithgareddau trawsblannu cyfreithlon yng Nghymru, ac mae'n cyflwyno dau gysyniad, sef 'cydsyniad a ystyrir' a 'chydsyniad datganedig'. Mae Adran 3(3) yn ymdrin â'r achosion pan fydd organau a meinweoedd wedi eu mewnforio i Gymru o'r tu allan i Gymru ac felly pan na fydd angen cydsyniad.

Mae **Adran 4** yn amlinellu 'cydsyniad a ystyrir' fel y sefyllfa ddiofyn yng Nghymru, heblaw yng nghyd-destun rhai oedolion a eithrir a phlant. Mae hefyd yn amlygu pryd y gallai eithriadau posibl fod yn berthnasol, megis:

- pan fydd oedolyn yn fyw (byddai gofyn am 'gydsyniad datganedig' bob amser yn yr achos hwn heblaw mewn achosion lle nad yw'r gallu ganddynt i gydsynio);
- pan fydd oedolyn wedi marw ond roedd eu penderfyniad ynglŷn â chydsynio i drawsblaniad mewn grym yn union cyn y farwolaeth (mewn achos o'r fath bydd y penderfyniad hwnnw'n drech);
- pan fydd oedolyn wedi marw ond nad oes penderfyniad mewn grym, ond bod yr oedolyn wedi penodi rhywun arall i wneud y penderfyniad.

Eithriad ychwanegol yw pan fydd rhywun mewn 'perthynas gymhwysol' â'r ymadawedig yn rhoi gwybodaeth sy'n dweud na fyddai'r ymadawedig wedi cydsynio (mae diffiniad o 'berthynas gymhwysol' yn Adran 17 y Bil).

Mae **Adran 5** yn ei gwneud yn eglur y byddai gofyn am 'gydsyniad datganedig' bob amser ar gyfer oedolyn a eithrir.

Mae **Adran 6** yn gwneud darpariaeth ar gyfer achos pan fydd yr ymadawedig yn blentyn neu'n berson ifanc (h.y. o dan 18 oed). Er nad yw'r darpariaethau sy'n ymwneud â chydsyniad a ystyrir yn y Bil yn berthnasol i neb o dan 18 oed, bydd plentyn neu berson ifanc yn dal i allu datgan a chofnodi ei dymuniad i fod yn rhoddwr neu beidio ar y gofrestr newydd, ac os bydd farw caiff ei ddymuniad ei drafod â rhywun sydd mewn perthynas gymhwysol â'r plentyn neu'r person ifanc. Os na fydd 'cydsyniad datganedig' wedi ei ddatgan gan yr ymadawedig cyn marw, gofynnir i rywun sydd mewn 'perthynas gymhwysol' wneud y penderfyniad ynghylch rhoi organau.

Mae **Adran 7** yn nodi y gall oedolyn benodi cynrychiolydd (neu gynrychiolwyr) i roi cydsyniad datganedig ar ôl ei farwolaeth, ac y gall nodi pa weithgareddau trawsblannu y mae gan y cynrychiolydd bwerau cydsynio drostynt. Gellir gwneud penodiad ar lafar neu'n ysgrifenedig, cyhyd â'u bod yn cadw at feini prawf penodol. Gellir dirymu neu nacáu penodiad unrhyw bryd.

Mae **Adran 8** yn berthnasol pan nad yw'r gallu gan oedolyn byw i gydsynio i roi deunydd a phan nad oes penderfyniad mewn grym. Mewn achosion o'r fath, ystyrir bod yr oedolyn byw yn cydsynio i roi deunydd os gwneir y gweithgaredd gan rywun sy'n gweithredu er budd gorau'r oedolyn neu os yw'n cael ei wneud mewn amgylchiadau a bennir mewn rheoliadau a wnaethpwyd gan Weinidogion Cymru.

Mae **Adran 9** yn ei gwneud yn drosedd i berson gynnal gweithgaredd trawsblannu yng Nghymru heb gydsyniad. Fodd bynnag, mae'r Adran yn nodi nad yw person yn cyflawni trosedd:

- os yw'n credu ei fod yn gwneud y gweithgaredd gyda chydsyniad;
- os yw'n credu nad yw'n weithgaredd trawsblannu; neu
- os yw'r organau dan sylw yn ymwneud â deunydd sydd wedi'i fewnforio (Adran 3(3)), neu breserfio deunydd i'w drawsblannu (Adran 12(1)).

Mae hefyd yn datgan bod rhywun yn cyflawni trosedd os bydd yn mynd ati'n fwriadol i ddatgan yn dwyllodrus bod cydsyniad i gynnal gweithgaredd trawsblannu neu nad yw'r gweithgaredd yn weithgaredd trawsblannu. Mae'r Adran hon hefyd yn nodi manylion y gosb i rywun sy'n euog o gyflawni trosedd o dan yr Adran hon.

Mae **Adran 10** yn ymwneud ag achosion pan gaiff troseddau o dan Adran 9 eu cyflawni gan gyrff corfforaethol.

Mae **Adran 11** yn ymwneud ag erlyniadau am droseddau a gyflawnir o dan Adran 9.

Mae **Adran 12** yn ei gwneud yn gyfreithlon i gadw a phreserfio corff yr ymadawedig ar gyfer gweithgaredd trawsblannu posibl tra bod mater cydsynio i ddefnyddio'r organau yn cael ei ddatrys. Mae'r Bil yn ei gwneud yn eglur y dylid cymryd y lleiafswm o gamau angenrheidiol i breserfio'r corff, yn ogystal â'r dulliau lleiaf ymwthiol.

Mae **Adran 13** yn cynnal y safbwynt cyfreithiol presennol sef bod angen cydsyniad y crwner cyn cynnal unrhyw weithgaredd trawsblannu ac os yw'n debygol neu'n bosibl y bydd angen y corff neu ddeunydd perthnasol ar y crwner.

Mae **Adran 14** yn rhoi manylion y diwygiadau a wneir i *Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004* gan y Bil er mwyn adlewyrchu deddfwriaeth Cymru. Caiff canllawiau yn

ymwneud â darpariaethau'r Bil eu nodi yn y codau ymarfer a baratoir gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol.

Mae **Adran 15** yn rhoi manylion diwygiadau canlyniadol a chysylltiedig i *Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004* a wneir gan y Bil, yn ogystal â diwygiadau i swyddogaeth gyffredinol yr Awdurdod Meinweoedd Dynol.

Mae **Adran 16** yn diffinio deunydd perthnasol fel deunydd, heblaw gametau, sydd wedi ei gyfansoddi o gelloedd dynol neu sy'n eu cynnwys. Nid yw'r Bil yn ymdrin â deunydd o embryonau y tu allan i'r corff dynol na gwallt ac ewinedd o gorff rhywun byw.

Mae **Adran 17** yn diffinio terminoleg benodol sy'n gysylltiedig â'r Bil, megis 'perthynas gymhwysol'.

Mae **Adran 18** yn darparu bod pob is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad.

Mae **Adran 19** yn ymdrin â chychwyn y Bil ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Yn benodol, mae'r Adran yn nodi y bydd dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo a rhoi gwybodaeth am drawsblannu yn cychwyn pan roddir Cydsyniad Brenhinol, ond na fydd y darpariaethau sy'n weddill yn cychwyn lai na dwy flynedd ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Bwriedir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol yn 2013 ac i'r Ddeddf ddod i rym yn 2015.

Mae **Adran 20** yn datgan mai teitl byr y Ddeddf ar ôl iddi gael Cydsyniad Brenhinol fydd *Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013.*

## *3.3. Y gwahaniaethau rhwng y Bil drafft a'r Bil fel y'i cyflwynwyd*

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod y newidiadau canlynol wedi'u gwneud i'r Bil fel y'i cyflwynwyd ar ôl ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil drafft a ddigwyddodd rhwng mis Mehefin a mis Medi 2012:

> Mae dau ymgynghoriad wedi helpu gyda'r gwaith o ddrafftio'r ddeddfwriaeth ac mae nifer o feysydd yn fwy eglur o ganlyniad i hynny. Yn benodol, mae'r Bil wedi'i fireinio i ddarparu darpariaeth gliriach mewn perthynas â phobl nad yw'r gallu ganddynt i wneud penderfyniad a rôl perthnasau cymhwysol a chynrychiolwyr penodedig yn y broses rhoi organau. Cafodd y Bil ei fireinio ymhellach o ran y prosesau gwahanol i'w dilyn ar gyfer y sawl a fu farw a'r rhai sy'n dal yn fyw. Cafwyd hefyd nifer o newidiadau drafftio mewn perthynas â'r cydadwaith â Deddf 2004. [24]

[24] Llywodraeth Cymru, ***Bil Trawsblannu Dynol (Cymru), Memorandwm Esboniadol***, 3 Rhagfyr 2012, paragraff 90 [fel ar 19 Rhagfyr 2012]

## 4. Goblygiadau ariannol

Mae'r Memorandwm Esboniadol ('y Memorandwm') yn datgan y gallai'r Bil arwain at nifer o gostau ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi dau gategori bras o gostau yn y Memorandwm a amlinellir isod:

Mae'r categori cyntaf yn ymwneud â sefydlu a chynnal y seilwaith sydd ei angen er mwyn gweithredu 'system feddal o optio allan' o roi organau. Bydd hyn yn cynnwys costau'n ymwneud â newidiadau i fusnes a newidiadau i systemau, prosesu ceisiadau i optio allan, cyfathrebu â'r cyhoedd a gwerthuso. Mae'r Memorandwm yn amcangyfrif y bydd hyn yn costio tuag £8 miliwn dros gyfnod o ddeng mlynedd.[25] Llywodraeth Cymru fydd yn talu'r costau hyn.

Mae'r ail gategori yn ymwneud â'r costau a ddaw yn sgil tynnu organau'r ymadawedig a'u trawsblannu. Yn ôl y Memorandwm, mae'r costau hyn yn amrywio yn ôl y math o organ (mae'r Memorandwm yn ystyried y pedair organ fwyaf cyffredin a drawsblennir). Bydd cyfanswm y costau a'r manteision yn dibynnu ar nifer y rhoddwyr ychwanegol a'r llawdriniaethau.

Bydd manteision y Bil hefyd yn dibynnu ar y modd y caiff gwella ansawdd bywyd ei fesur. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n rhan o'r Memorandwm yn amcangyfrif y gwerth hwn o ran gwella ansawdd bywyd (a elwir yn 'Nifer y Blynyddoedd mewn Bywyd a Addaswyd yn ôl Ansawdd' neu'n 'BBAA') ar gyfer cleifion a fydd yn cael trawsblaniad o ganlyniad i'r Bil. Mae'r Memorandwm yn amcangyfrif hyn fel arbediad o £60,000 am bob blwyddyn ychwanegol o iechyd perffaith.[26] Fodd bynnag, gan fod y ffigur hwn yn oddrychol, mae'r Memorandwm yn rhoi ystod o ffigurau rhwng £20,000 a £60,000 am bob BBAA. Hefyd, gan ei bod yn anodd rhagfynegi nifer y rhoddwyr ychwanegol bob blwyddyn, mae'r Memorandwm yn cynnig ystod o sefyllfaoedd, yn amrywio rhwng 1 a 25 o roddwyr ychwanegol bob blwyddyn.

Yn seiliedig ar y tybiaethau sydd wedi eu cynnwys yn y gwaith modelu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, bydd hyd yn oed cynnydd bach yn nifer y rhoddwyr yn arwain at fanteision net. Er enghraifft, amcangyfrifir bod un rhoddwr ychwanegol bob blwyddyn gyda chynnydd cysylltiedig mewn trawsblaniadau organau yn werth £3 miliwn net ar hyn o bryd; pe byddai hyn yn codi i 15 rhoddwr byddai'r ffigur hwn yn codi i £148 miliwn.

Mae'r Memorandwm yn nodi bod y manteision sy'n deillio o'r Bil yn cael eu cyfrifo ar lefel y Deyrnas Unedig, oherwydd cydnabyddir y gellid trawsblannu cyfran uchel

---

[25] Llywodraeth Cymru, ***Bil Trawsblannu Dynol (Cymru), Memorandwm Esboniadol***, 3 Rhagfyr 2012, paragraff 111 ac Atodlen 1 [fel ar 19 Rhagfyr 2012]
[26] Mae Adran Iechyd y Deyrnas Unedig yn amcangyfrif mai gwerth ariannol un BBAA yw £60,000.

o unrhyw organau ychwanegol a roddir gan breswylwyr Cymru i breswylwyr yn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu prosiect cwmpasu yn 2012-13 er mwyn sefydlu gwaelodlinau. Dilynir hynny gan astudiaeth annibynnol a fydd yn dechrau yn 2013-14 i fonitro a gwerthuso effaith cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, a chyhoeddir adroddiad terfynol ym mis Mawrth 2017. Caiff adroddiadau interim eu cyhoeddi yn ôl amserlen y cytunir arni, a bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad llawn o fewn pum mlynedd o weithredu'r ddeddfwriaeth.

## 5. Ymatebion

Yn ei datganiad deddfwriaethol ar y Bil i Aelodau'r Cynulliad yn y cyfarfod llawn ar 4 Rhagfyr 2012, nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Lesley Griffiths AC:

> Mae gan y DU un o'r cyfraddau cydsynio isaf yn yr UE pan ddaw at weld teuluoedd yn cytuno i roi organau rhywun annwyl. Un o'r rhwystrau mwyaf sy'n dylanwadu ar ymddygiad teulu yw pobl ddim yn gwybod beth fyddai eu hanwyliaid wedi ei ddymuno. Credaf y bydd ein deddfwriaeth, ynghyd â'r holl gyfathrebu a fydd yn ei hamgylchynu, yn newid y sefyllfa hon yng Nghymru, yn egluro dymuniadau mwy o bobl, a bydd yn effeithio ar dorri tir newydd yn agwedd y cyhoedd ac ymwybyddiaeth am roi organau.[27]

Wrth ymateb, croesawodd Ceidwadwyr Cymru y cyfle i edrych ar roi organau. Nododd Darren Millar AC:

> Soniasoch y bu ymateb gwell nag erioed i'r ymgynghoriad ar y darn hwn o ddeddfwriaeth, ac mae hynny'n dangos cryfder y teimlad o gwmpas y wlad am roi organau, ar bob ochr i'r ddadl. Oherwydd bod cymaint o amrywiaeth sylweddol mewn barn, mae'n bwysig iawn ein bod yn datblygu'r mater mewn modd sensitif. Am y rheswm hwnnw, ac oherwydd bod gwahaniaethau barn, hyd yn oed o fewn y grŵp Ceidwadwyr Cymreig, ystyriwn ei bod yn briodol cael pleidlais rydd yn y Cynulliad ar y mater hwn. Byddwn yn sicr yn cael pleidlais rydd ar y meinciau hyn.[28]

Yn ogystal, pwysodd Darren Millar ar y Gweinidog ynglŷn â materion yn ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Bil:

> Weinidog, a allech chi roi ychydig mwy o wybodaeth ar gymhwysedd cyfreithiol? Gwn eich bod wedi mynegi diolch i Lywodraeth y DU a Swyddfa Cymru yn eich datganiad heddiw, a chroesawaf y ffaith eich bod wedi bod yn cael trafodaethau. Fodd bynnag, pa sicrwydd sydd gennych fod eich cymhwysedd tybiedig yn hollol sicr? Nid ydym am ddiweddu yn y Goruchaf Lys ar ddiwedd hyn os oes rhyw fath o her gyfreithiol. Rydych wedi gosod amserlen yn glir erbyn pryd yr ydych am ddelio â'r mater hwn a'i gael ar y llyfr statud, ond a allwch chi ddweud wrthym ychydig mwy am y cyngor yr ydych wedi'i gael?[29]

Cafodd y cwestiwn ynglŷn â ph'un a oedd y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ei godi hefyd gan yr Aelod Llafur Rebecca Evans AC.[30]

Gan siarad ar ran Plaid Cymru, croesawodd Elin Jones AC yr egwyddor y tu ôl i'r Bil:

> Mae hwn yn Fil arwyddocaol ac arloesol gydag oblygiadau pellgyrhaeddol i ni i gyd fel dinasyddion y wlad hon. Polisi Plaid Cymru yw cefnogi egwyddor deddfwriaeth o'r fath, ac mae wedi gwneud hynny ers dyddiau cynnar y Cynulliad pan oedd Dai Lloyd yn Aelod Cynulliad ac yn bencampwr amlwg i system o optio mas o roi organau. Dim ond ers i'r Cynulliad gael y pwerau pellach i greu deddfwriaeth y mae'r Llywodraeth wedi bod mewn

---

[27] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyfarfod Llawn, ***Cofnod y Trafodion [tudalen 45]***, 4 Rhagfyr 2012 [fel ar 3 Ionawr 2013]
[28] Ibid, tudalen 48
[29] Ibid
[30] Ibid, tudalen 53

> sefyllfa i gyflwyno Bil o'r math hwn. Felly, rydym yn cydnabod bod heddiw yn ddiwrnod pwysig yn hynt ddeddfwriaethol Cymru.[31]

Nododd arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams AC, hefyd y byddai ei phlaid yn cefnogi'r Bil mewn egwyddor, gan ychwanegu:

> Rydym wedi cefnogi'r system feddal o optio allan ers amser maith, gyda mesurau diogelwch priodol ar waith. Cyfeiriodd y Gweinidog at y ffaith bod hyn wedi ei gynnwys yn ein maniffesto yn etholiad diwethaf y Cynulliad. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu nad oes gennym rôl i'w chwarae wrth graffu ar y ddeddfwriaeth, a gwneud yn siŵr ei bod mor gadarn ag y gallai fod.[32]

Mynegwyd sawl barn gan randdeiliaid a sefydliadau allanol ynghylch cynigion Llywodraeth Cymru yn ystod yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd ar y Papur Gwyn a'r Bil drafft.

Ar y cyfan, cafwyd croeso cyffredinol i'r cynigion yn y dogfennau hynny gan elusennau iechyd yng Nghymru, gan gynnwys Sefydliad Aren Cymru, Diabetes UK Cymru a Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint Cymru.[33] Cafwyd cefnogaeth i gynigion Llywodraeth Cymru hefyd gan Gymdeithas Feddygol Prydain.[34]

Fodd bynnag, mynegodd nifer o gyrff a grwpiau crefyddol bryderon ynghylch cynigion drafft Llywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymunedau Mwslimaidd ac Iddewig Cymru[35] ynghyd â'r Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Chenhadaeth Uniongred Cymru.[36]

Mae crynodeb llawn o'r ymatebion a gafwyd yng nghyd-destun yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd hyd yma ar y Papur Gwyn[37] a'r Bil drafft[38] ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad yn cynnal ymgynghoriad ar y Bil fel y'i cyflwynwyd, fel rhan o'i waith yn craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1 y broses ddeddfwriaethol. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 18 Ionawr 2013 ac mae'n ofynnol i'r Pwyllgor lunio adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil erbyn 22 Mawrth 2013.

---

[31] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyfarfod Llawn, ***Cofnod y Trafodion [tudalennau 55-56]***, 4 Rhagfyr 2012 [fel ar 3 Ionawr 2013]
[32] Ibid, tudalen 58
[33] Sefydliad Aren Cymru, ***Opt out needed as a solution for the UK***, 30 Ionawr 2012 (fel ar 20 Rhagfyr 2012]
[34] Cymdeithas Feddygol Prydain, ***Doctors welcome 'ground-breaking' donor scheme in Wales***, 19 Mehefin 2012 [fel ar 20 Rhagfyr 2012]
[35] Newyddion BBC, ***Organau: gwrthwynebiad crefyddol***, 5 Tachwedd 2012 [fel ar 20 Rhagfyr 2012]
[36] Newyddion BBC, ***Ymgynghoriad ar roi organau yn dod i ben***, 10 Medi 2012 [fel ar 20 Rhagfyr 2012]
[37] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion***, Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth ar Roi Organau a Meinweoedd, 8 Mawrth 2012 [fel ar 20 Rhagfyr 2012]
[38] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion***, Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) Drafft a'r Memorandwm Esboniadol: Cydsynio i roi organau a meinweoedd yng Nghymru, 3 Rhagfyr 2012 [fel ar 20 Rhagfyr 2012]